Rheolaeth er gwarchod y Brithribin Brown

Ymylon a rhodfeydd y coetir
Mae coedwigoedd llydanddail yn hanfodol bwysig i'r rhan fwyaf o gytrefi'r Brithribin Brown a gellir eu rheoli er ei les.

- Cynhaliwch unrhyw goedwigoedd fferm ac ymylon coedwigoedd llydanddail, gan gadw coed sydd wedi cael eu hadnabod fel mannau ymgynnull a pharu allweddol. Mae'r oedolion yn tueddu i ymgynnull o gwmpas grwpiau penodol o goed, yn enwedig tua chanol mis Awst wrth chwilio am gymar. Mae'r un coed, ynn amlwg fel rheol, yn cael eu defnyddio i'r diben hwn flwyddyn ar ôl blwyddyn. Pryd bynnag y gellir adnabod y coed hanfodol hyn fe ddylid eu cadw lle bynnag y mae'r goedwig yn cael ei rheoli.
- Coedlannwch neu torrwch goed i lawr yn ôl trefn gylchdroadol. Gwasgarwch unrhyw waith clirio neu goedlannu dros sawl blwyddyn gan adael ambell lain o goetir heb ei chyffwrdd i fod yn ganolbwynt i'r cytrefi.
- Rheolwch rodfeydd ac ymylon y coetir yn ôl trefn gylchdroadol yr un fath â pherthi. Gall ymylon coedwig a rhodfeydd heulog llydan fod yn safle dodwy wyau pwysig. Dylid torri drain duon bob 2-5 mlynedd, yr un fath â pherthi. Gall creu rhodfeydd dwyrain-gorllewin newydd mewn coedwig fod yn fuddiol, yn enwedig os ydynt yn cysylltu mannau dodwy sydd mewn bodolaeth. Plannwch ddrain duon ar hyd ymylon heulog clyd wrth greu coetiroedd neu rodfeydd newydd.

c1212 June 2005

Gwarchod Glöynnod Byw Cymru
Achub glöynnod a gwyfynod gwyllt a'u cynefinoedd

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Paratowyd gan Gwarchod Glöynnod Byw gyda chyllid oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru Cronfa Her Rhywogaethau.

Gwarchod Glöynnod Byw
10 Rhes Calvert Abertawe SA1 6AR
Ffôn: 0870 7706153 E-bost: wales@butterfly-conservation.org

www.butterfly-conservation.org

Lluniau gan Michael J Clark, Mark Parsons, Paul Pugh and David Walker

Mae Gwarchod Glöynnod Byw yn elusen gofrestredig ac yn gwmni di-elw, wedi'i gyfyngu gan warant.
Swyddfa Gofrestredig: Manor Yard East Lulworth Wareham Dorset BH20 5QP
Cofrestrwyd yn Lloegr Rhif 2206468 - Elusen Gofrestredig Rhif 254937
Designed and produced by **cellcreative** 01942 681648

Gwarchod Glöynnod Byw

Y Brithribin Brown

Thecla betulae



Mae'r Brithribin Brown yn löyn byw dirgelaidd prydferth sy'n llwyddo i fyw mewn perthi ac ar ymylon coetiroedd. Yng Nghymru mae'n bridio ar ddrain duon. Mae eu cytrefi i'w gweld fel arfer wedi'u gwasgaru ar draws ardal eang heb fod yn niferus. Gan ei fod yn dibynnu ar berthi, mae gwaredu perthi a'u torri'n rhy aml yn effeithio arno.

Yr oedd y Brithribin Brown i'w weld yn gyffredin ar draws Cymru ar un adeg, ond mae wedi dirywio'n arw yn sgil colled y coetiroedd a'r perthi, a rheolaeth ddwys ar berthi. Ei gadarnle olaf yw Sir Gaerfyrddin, ynghyd â chytrefi gwasgaredig yn Sir Benfro a Cheredigion.


Brown Hairstreak eggs


The caterpillars are very well camoflauged

Brown Hairstreak underside

Cylch bywyd

Mae'r oedolion yn dod allan o ddiwedd Gorffennaf ymlaen a gallant fod yn dal i hedfan tan ganol mis Hydref. Maent yn treulio rhan helaeth o'u bywydau rhwng brigau'r coed neu ar hyd ymylon y coetir yn ymborthi ar y melwlith a secretir gan lau planhigion (pryfed gleision), a'r secretiadau a gynhyrchir gan ynn. Fe'u gwelir amlaf â'u hadenydd ar gau, gan ddatgelu isadenydd brown euraid wedi'u croesi gan ddwy linell wen gul, a'r gynffon oren nodweddiadol. Mae'r arwyneb uchaf yn frown tywyll, ond mae gan y fenyw glytiau oren ar y blaen-adenydd.

Gwelir y benywod yn amlach wrth iddynt hedfan ar hyd y perthi neu ymhlith prysgwydd ifanc yn chwilio am fannau addas i ddodwy wyau ar goesynnau ifanc y drain duon. Mae'r wyau'n aros yma gydol y gaeaf, nes bod y dail yn ymagor ym mis Mai.

Mae'r lindys gwyrdd golau'n ymborthi ar ddail y drain duon nes chwilera yn ysto hanner cyntaf mis Gorffennaf. Ffurfir y crysalis yn agos i'r ddaear ymhlith y dail, a bydd morgrug weithiau'n gofalu amdano.

Lleoliad yr wyau

Y ffordd hawsaf o gadarnhau presenoldeb y glöyn byw hwn yw chwilio am yr wyau ar ddrain duon yn ystod y gaeaf. Mae'r wya gwynion, tua maint pen pin, i'w gweld yn amlwg yn erbyn rhisgl tywyll brigau ifanc drain duon. Maent yn arfer cael eu dodwy fesul un, o lefel y llawr hyd at 1m (3tfedd) uwchben y ddaear, ar egin allwthiol wrth fôn y perthi neu ar grachgoed y drain duon ar ymyl y caeau. Safleoedd heulog clyd a ddewisir amlaf i ddodwy wyau.

Canolir y cytrefi fel rheol o gwmpas coedwig, ond mae'r wyau'n arfer cael eu dodwy ar draws sawl milltir sgwâr yn y wlad o gwmpas. Mae angen cyfuniad o goetiroedd, prysgwyd a pherthi sy'n cynnwys digonedd o ddrain duon wedi'u rheoli'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o gytrefi i'w cael ar briddoedd trymion neu gleiog, lle y mae drain duon ymhlith prif elfennau'r perthi neu'r prysgwydd.



Rheolaeth er gwarchod y Brithribin Brown

Perthi drain duon

Gan fod wyau a lindys y Brithribin Brown yn dibynnu ar frigau ifanc y ddraenen ddu am gyfran helaeth o'r flwyddyn, mae tocio perthi ar unrhyw adeg yn debyg o'u lladd neu amharu arnynt. Mae tocio blynyddol yn arbennig o niweidiol, a gall ladd poblogaethau cyfan. Gellir osgoi hyn, a hybu goroesiad y poblogaethau hyn, trwy gadw at drefn docio addas.

- Tociwch berthi unwaith bob 3-5 mlynedd, gan ymatal rhag torri mwy na thraean mewn unrhyw flwyddyn. Gall hyn gostio 50% yn llai na thorri bob blwyddyn, yn ogystal â sicrhau perth iach a chreu cefn gwlad fydd yn fwy amrywiol a deniadol.
- Mae trefn haenu perthi neu goedlannu sy'n cylchdroi dros gyfnod o saith blynedd yn addas dros ben hefyd. Mae hyn yn hybu tyfiant ifanc sy'n ddeniadol iawn i fenywod sy'n dodwy wyau. Mae'n beth doeth i ffensio coedlannau ifanc rhag cael eu brigbori gan dda byw neu geirw.
- Gochelwch rhag chwistrellu cemegau hyd at ymylon caeau ac, os gellir, gadewch odre amdanynt heb ei droi. Mae chwistrellu'n gallu niweidio'r wyau a'r lindys yn ogystal â'r berth, felly mae gadael godreon llydan heb eu chwistrellu o gwmpas caeau'n fuddiol i fywyd gwyllt.
- Chwiliwch am gyfleoedd i adfer a chreu perthi gan ddefnyddio drain duon, yn enwedig os gallwch chi gysylltu hydoedd perthi ac ymylon coetir sydd mewn bodolaeth yn barod. Fel rheol, mae'r Brithribin Brown yn ffafrio perthi sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin, a sydd ag un ochr heulog yn wynebu'r de.